

**Atodiad A: cais am ragor o wybodaeth yn sylwadau Comisiynydd y Gymraeg ar Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Iaith Gymraeg yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol 2-14-15**

**Gwybodaeth Gyffredinol:**

Er bod yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (ACC) yn cysylltu ag aelodau o'r cyhoedd o bryd i'w gilydd, mae mwyafrif y cyswllt hwn yn cael ei wneud drwy gyfreithwyr dan gontract (darparwyr) ac o dan delerau'r contract hwn mae gofyniad i wneud pob cleient yng Nghymru yn ymwybodol o wasanaethau cyfrwng Gymraeg fel sy'n briodol. Rydym hefyd yn mynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo ein gwasanaethau dwyieithog yn ein swyddfa yng Nghaerdydd, sef ein hunig swyddfa yng Nghymru.

**Sylwadau ar berfformiad: Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg**

**Paragraff 3, t.2:** Noda'r adroddiad fod yr Asiantaeth wedi 'cyflwyno ffurflen gais Gymraeg ar-lein' ar gyfer ceisiadau am gymorth cyfreithiol troseddol. Ni lwyddwyd i ddod o hyd i'r ffurflen ar-lein hon ar wefan yr Asiantaeth. Nodwch, os gwelwch yn dda, sut y mae cael mynediad at y ffurflen gais ar-lein am gymorth cyfreithiol troseddol.

**Paragraff 5, t.2:** Noda'r adroddiad fod 'popeth a gyhoeddir ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn cael ei gynhyrchu yn ddwyieithog'. Rhestrwch y dogfennau sydd ar gael gan yr Asiantaeth yn Gymraeg, os gwelwch yn dda.

**Ymateb yr ACC:**

**Paragraff 3, t.2:** Ceir mynediad i'r ffurflen gais ar-lein ar gyfer gwneud cais am gymorth cyfreithiol troseddol drwy ddarparwyr, fel y nodir yn ein Cynllun Iaith Gymraeg (tudalen 6). Bydd darparwyr yn cynnig y ffurflenni i gleientiaid ar amser priodol a gallant gynnig y rhain yn Gymraeg, gan gynnwys CRM14 (Datganiad Ariannol ac er budd Cyfiawnder), CRM15 (Datganiad Ariannol), CRM15c (Parhad o CRM15) a CRM16 (Adolygiad ar sail Caledi) a chanllawiau ar gyfer y ffurflenni hyn. Gellir lawrlwytho copïau papur o bob ffurflen angenrheidiol ar-lein, fodd bynnag ni fyddem yn disgwyl bod angen cael gafael ar y ffurflenni hyn yn annibynnol ar gleientiaid, gan y dylai eu cyfreithiwr eu rhoi iddynt. Gellir gweld rhestr gynhwysfawr o bob ffurflen Cymorth Cyfreithiol Cymraeg angenrheidiol drwy ddilyn y ddolen isod:

<https://www.gov.uk/government/publications/asiantaeth-cymorth-cyfreithiol-ffurflenni-cymraeg-welsh-forms>

Fodd bynnag, nodir mai prif ddefnyddwyr y ffurflenni hyn fydd y cyfreithwyr ar ran eu cleientiaid, ac nid y cleientiaid yn uniongyrchol.

Mae'r cyfeiriad at y ffurflenni ar-lein yn ymwneud ag eFfurflen yr ACC, sy'n cael ei llenwi gan y darparwr. Mae'r eFfurflenni ar gael yma: [www.gov.uk/guidance/legal-aid-eforms](http://www.gov.uk/guidance/legal-aid-eforms)

Mae'r eFfurflen CRM14 yn ehangu, pan fo angen, i gynnwys y cwestiynau ar y ffurflenni papur CRM15 a CRM15C. Mae'r ymgeisydd yn llofnodi ffurflen datganiad y bydd y darparwr yn ei chadw ar ffeil.

**Paragraff 5, t.2:** Mae pob ffurflen angenrheidiol, fel yr amlygir uchod, ar gael yn ddwyieithog ar wefan yr ACC. Yn ychwanegol at hyn, mae'r ACC wedi cyhoeddi rhagor o ddogfennau corfforaethol dwyieithog, gan gynnwys yr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol (gweler:

<https://www.gov.uk/government/publications/legal-aid-agency-annual-report-and-accounts->

[2014-to-2015](https://www.gov.uk/government/publications/director-of-legal-aid-casework-annual-report-2014-to-2015)), Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol (gweler: <https://www.gov.uk/government/publications/director-of-legal-aid-casework-annual-report-2014-to-2015>) , Cynllun Busnes yr ACC (gweler: <https://www.gov.uk/government/publications/legal-aid-agency-business-plan-2014-to-2015>), Adroddiad Blynyddol y Cynllun Iaith Gymraeg (gweler: <https://www.gov.uk/government/publications/legal-aid-agency-welsh-language-scheme-report-2013-to-2014>) ac ymateb Comisiynydd y Gymraeg i Adroddiad Blynyddol ein Cynllun Iaith Gymraeg (gweler: <https://www.gov.uk/government/publications/legal-aid-agency-the-welsh-language-commissioners-response-2012-to-2014>). Cafodd yr ymgynghoriad ar ein Cynllun Iaith Gymraeg hefyd ei gyhoeddi'n Gymraeg, a'i ddisodli wedyn gan Gynllun Iaith Gymraeg terfynol yr Asiantaeth (gweler: <https://www.gov.uk/government/consultations/asiantaeth-cymorth-cyfreithiol-cynllun-iaith-gymraeg>).

### Sylwadau ar berfformiad: DP 1 Gwasanaethau Rheng Flaen

**Paragraff 8, t.3:** Noda'r adroddiad i'r Asiantaeth dderbyn '594 o alwadau' i'r llinell Gymraeg yn y cyfnod adrodd, a bod hyn '243 yn llai na'r 12 mis diwethaf'. Cynigir esboniadau posibl dros y gostyngiad, sef gostyngiad yn y gwaith sy'n derbyn cymorth cyfreithiol, a datblygiadau digidol.

1. Nodwch, os gwelwch yn dda, a welwyd gostyngiad tebyg yn nifer y galwadau ffôn Saesneg a dderbyniwyd.
2. Nodwch, os gwelwch yn dda, pa gamau a gymerir i hybu a hwyluso defnydd o'r gwasanaeth ffôn Gymraeg.

### Ymateb yr ACC:

1. Yn ystod 2014/15, bu gostyngiad o tua 14% yn y galwadau Saesneg a dderbyniwyd, ond nid oes gan yr ACC god rheswm ar gyfer y galwadau a dderbynnir.
2. Un o'r prif ffyrdd o gael gafaél ar gefnogaeth yr ACC yw trwy wasanaeth ffôn Cymorth Cyfreithiol Sifil, sy'n cynnig cyngor dwyieithog.

Mae gofyniad cytundebol ar ddarparwyr i dynnu sylw eu cleientiaid at wasanaethau cyfrwng Gymraeg. Cynhaliwyd arolwg o bob darparwr y llynedd, ac roedd y gwasanaeth cyfrwng Gymraeg yn rhan o'r arolwg. Mae Rheolwyr Contract yn trafod yn rheolaidd â darparwyr ac yn hyrwyddo'r gwasanaeth bob cyfle y cânt.

Mae'r gwasanaeth cyfrwng Saesneg yn rhoi manylion yr opsiwn gwasanaeth cyfrwng Gymraeg sydd ar gael i alwyr pe baent am i'w galwadau gael eu hateb yn Gymraeg. Pan fydd aelodau o'r cyhoedd yn cysylltu â'r Pwynt Cyswllt Gymraeg neu'r swyddfa yng Nghymru, caiff y ffôn ei ateb â chyfarchiad dwyieithog.

Bydd yr ACC yn cymryd camau i wneud cais bod rhif y llinell ffôn Gymraeg yn cael ei hyrwyddo wrth ymyl ein llinell Saesneg ar wefan yr ACC ar GOV.UK.

### Sylwadau ar berfformiad: DP 2 Darparu Gwasanaethau drwy Drydydd Partïon

**Paragraff 11, t.3:** Noda'r adroddiad fod 'gwasanaeth ar-lein digidol newydd yr Asiantaeth,

'Check if you can get legal aid', ar Gov.uk ar gael yn Gymraeg. Wrth gyrchu'r gwasanaeth, sylwyd:

- na chynhwysir y gwasanaeth hwn yn rhestr Gov.uk o wasanaethau Cymraeg
  - Nad oes unrhyw wybodaeth gefndir am y gwasanaeth ar gael yn Gymraeg
  - Nad oes unrhyw awgrym fod y gwasanaeth ar gael yn Gymraeg tan ar ôl clicio 'Start now' ar y dudalen gwybodaeth
  - Nad yw rhannau helaeth o'r gwasanaeth ar-lein wedi eu cyfieithu.
1. Nodwch, os gwelwch yn dda pa gamau y bwriedir eu cymryd er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth ar-lein Cymraeg yn gyflawn
  2. Nodwch, os gwelwch yn dda pa gamau y bwriedir eu cymryd er mwyn hybu a hwyluso defnydd o'r gwasanaeth ar-lein Cymraeg, er enghraifft drwy ei gwneud yn fwy amlwg fod y gwasanaeth ar gael yn Gymraeg.

**Paragraff 13, t.4:** Mae'r adroddiad yn nodi y gall cleient a gedwir yn y ddalfa ofyn am gyfreithiwr Cymraeg 'pan fo'r swyddog yn y ddalfa yn cysylltu â'n Canolfan Alw ar gyfer Cyfreithwyr ar Ddyletswydd'.

1. Nodwch, os gwelwch yn dda, pa gamau a gymerir er mwyn sicrhau bod cleientiaid yn ymwybodol y gallant ofyn am gyfreithiwr Cymraeg. A gaiff y gwasanaeth ei gynnis yn rhagweithiol?

#### **Ymateb yr ACC:**

#### **Paragraff 11, t.3:**

1. Ymwelodd staff yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol â'n tudalennau 'Gwirio os gallwch chi gael cymorth cyfreithiol' i gael golwg ar y gwallau cyfieithu a amlygwyd yn y lluniau a anfonwyd gan y Comisiynydd. Ni welodd ein staff yr un gwallau wrth ymweld â'r wefan (gweler y lluniau cyfatebol a ganfuwyd gan ein staff sydd wedi eu hatodi). Fodd bynnag, sylwon fod rhywfaint o'r cyngor llinell gymorth genedlaethol wedi ei roi yn Saesneg drwy gamgymeriad. Rydym wedi comisiynu Uned Gymraeg GLITEM i ddarparu cyfieithiadau ar gyfer y testun hwn ac wedi gofyn i'n tîm digidol ddiwygio'r testun i'r cyfieithiad Cymraeg cywir cyn gynted ag y bo modd. Byddwn yn cofnodi'r cynnydd yn ein Hadroddiad Monitro Blynyddol nesaf. Byddwn hefyd yn ymchwilio, gyda'n tîm digidol, i resymau posibl am y gwahaniaeth rhwng beth oedd eich staff chi a'n staff ni yn ei weld er mwyn sicrhau bod modd i ni gymryd camau gweithredu ychwanegol yn ôl yr angen.
2. Mae'r llwyfan cyhoeddi, [GOV.UK](https://www.gov.uk), yn cael ei reoli gan Wasanaeth Digidol y Llywodraeth, sy'n rhan o Swyddfa'r Cabinet (<https://www.gov.uk/government/organisations/government-digital-service>). Mae'r Gwasanaeth hwn hefyd yn rheoli y safonau golygyddol a'r dull gweithredu cyffredinol ar [GOV.UK](https://www.gov.uk) o ran cyhoeddiadau Adrannau yn unol â'u Cynlluniau Iaith Gymraeg unigol. Rôl Adrannau Unigol yw cydymffurfio â'r safonau hyn, felly mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'i hasiantaethau/adrannau cyflenwi busnes yn gyhoeddwr yn y broses hon, gydag ychydig o reolaeth dros ein cynnwys corfforaethol. Gellir dod o hyd i ganllawiau Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth ar <https://www.gov.uk/guidance/content-design/welsh-language-on-gov-uk>.

**Paragraff 11, t.4:**

Mae'r gofyniad am gyfreithiwr Cymraeg yn cael ei amlygu pan fydd yr heddlu yn cysylltu â'r Ganolfan Alwadau Cyfreithiwr ar Ddyletswydd. Mae'r heddlu yn sefydlu a oes angen cyfreithiwr Cymraeg ar y cleient, ac yn dweud hyn wrth y Ganolfan Alwadau Cyfreithiwr ar Ddyletswydd pan fyddant yn gwneud cais am gyfreithiwr ar ran y cleient. Pan fydd cleient yn cysylltu â chyfreithiwr yn uniongyrchol, byddai darparwyr unigol yn mynd i'r afael â'r angen hwn gyda'r cleient.

**Sylwadau ar berfformiad: DP 3 Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth iaith**

**Paragraff 15, t.4:** Noda'r adroddiad y bydd yr Asiantaeth yn 'parhau i ystyried ceisiadau gan staff sy'n dymuno cael hyfforddiant gyda thâl os ydyn nhw'n gallu dangos y byddai'n ateb angen busnes'. Mae'r Comisiynydd yn bryderus fod y datganiad hwn yn awgrymu y rhoddir y cyfrifoldeb ar y staff i ofyn am yr hyfforddiant a phrofi'r angen busnes amdano. Mae Cynllun iaith Gymraeg yr Asiantaeth yn cynnwys yr ymrwymiad canlynol (paragraff 43): 'Anogwn ein staff i ddysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau iaith Gymraeg drwy ein gweithdrefnau dysgu a datblygu a, lle mae hyn yn diwallu angen busnes clir, talwn am gost eu hyfforddiant.'

1. Esboniwch, os gwelwch yn dda, pa anogaeth a chymorth a roddir i staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg.
2. Cadarnhewch a oes disgwyl i'r unigolyn wneud cais am yr hyfforddiant a phrofi'r angen busnes.

**Ymateb yr ACC:****Paragraff 15, t.4:**

1. Mae rheolwyr yn mynd ati'n rhagweithiol i annog staff i ddysgu Cymraeg. Mae GLITEM yn cynnal cwrs hyfforddi iaith Gymraeg a gwahoddyd pob aelod o staff yng Nghymru i gymryd rhan. Mae'r hyfforddiant a ddarperir yn ddi-dâl, ac mae tri aelod o staff wedi manteisio ar y cyfle. Gall unrhyw aelod o staff wneud cais, waeth beth fo ei radd neu ei faes gwaith. Mae'r ACC hefyd wedi talu i aelod o staff fynychu cyrsiau iaith Gymraeg preswyl.
2. Mae'r holl staff yn cael trafodaethau un-i-un â'u rheolwr llinell, ac yn ystod y trafodaethau hynny mae modd i staff wneud cais am hyfforddiant ac i reolwyr gynnig hyfforddiant. Cytunir ar hyfforddiant rhwng rheolwyr llinell a'u haelodau o staff yn uniongyrchol. Yn achos hyfforddiant GLITEM, aethpwyd ati'n rhagweithiol i gynnig hyfforddiant i bob aelod o staff, ac nid oedd angen iddynt wneud cais penodol.

**Sylwadau ar berfformiad: Cyffredinol**

Ni cheir tudalen Gymraeg benodol ar wefan yr Asiantaeth ar gov.uk. Cred y Comisiynydd mai effaith hyn yw diffyg ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau a'r dogfennau Cymraeg a ddarperir gan yr Asiantaeth, a thrafferthion o ran dod o hyd i'r gwasanaethau a'r dogfennau Cymraeg hynny.

Ystyriwch yr opsiwn o ddarparu tudalen Gymraeg benodol ar wefan yr Asiantaeth ar Gov.uk, os gwelwch yn dda, a darparu ymateb.

**Ymateb yr ACC:** Mae'r ACC wedi'i chyfyngu rhywfaint o ran dyluniad ei thudalen we gan fod

y llwyfan cyhoeddi [GOV.UK](http://GOV.UK) yn cael ei reoli gan Wasanaeth Digidol y Llywodraeth. Fodd bynnag, bydd yr ACC yn archwilio, gyda Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth, drwy MoJ Digital, y posibilrwydd o gael tudalen o'r fath a'r wybodaeth a'r data defnyddio sydd wedi eu profi a allai o bosib gael eu cynnwys ar dudalen o'r fath.

Dylid nodi bod [GOV.UK](http://GOV.UK) yn dibynnu ar yr holl wybodaeth yn cael ei chyflwyno'n gyson ac ar sail angen defnyddwyr: hynny yw, mae'n rhaid cael gofyniad y mae modd ei brofi ac sydd wedi ei seilio ar dystiolaeth er mwyn i'r wybodaeth fodoli ar [GOV.UK](http://GOV.UK). Yn y cyswllt hwn, niferoedd yw'r 'dystiolaeth' – er enghraifft, os bydd pobl yn chwilio am rywbeth, bydd [GOV.UK](http://GOV.UK) (system gefn) yn cofnodi'r termau chwilio hyn. Dros amser, wrth archwilio'r data chwilio, efallai y bydd yn amlwg bod pobl yn chwilio am rywbeth nad yw'n bodoli ar y safle. Os yw'r niferoedd hynny yn ddigon arwyddocaol, bydd hynny'n cyfiawnhau creu cynnwys newydd i ddiwallu'r angen profadwy hwnnw. Caiff y cynnwys newydd yna ei ddylunio i ateb y cwestiynau penodol sydd gan ddefnyddwyr. Bydd cynnwys ar [GOV.UK](http://GOV.UK) yn cael ei gyhoeddi ar yr amod ei fod yn bodloni'r meini prawf angen ar ddefnyddwyr.

Mae'r ACC yn deall bod cynrychiolydd o Wasanaeth Digidol y Llywodraeth wedi cwrdd â chynrychiolwyr y Weinyddiaeth Cyfiawnder ac adrannau eraill yn ddiweddar, ac efallai y bydd newid yn y dull o fesur y galw yn sgil hynny. Byddwn yn ymchwilio i hyn gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac yn rhoi diweddariad yn ein Hadroddiad Monitro Blyneddol ar gyfer 2015/16.